Fy mhrofiad fel ymgyrchydd dros y Gymraeg

Fel nifer fawr o aelodau Cymdeithas yr Iaith, dechreuodd fy nhaith fel ymgyrchydd gyda chred syml: dylai'r Gymraeg fod yn rhan naturiol o bob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydw i wedi rhoi fy egni i sicrhau mai nid iaith i'w chadw ar silff yw'r Gymraeg, ond iaith fyw sy'n perthyn i bawb.

Un o'r meysydd cyntaf imi ymgyrchu drosto oedd cynnwys tafodieithoedd y Gymraeg o fewn y cwricwlwm ysgolion. Wrth i Gymru anelu at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae'n hanfodol ein bod yn annog plant i ddefnyddio'r iaith fel y maen nhw'n ei siarad gartref. Ni ddylai neb deimlo bod eu Cymraeg nhw'n "llai". Drwy feithrin hyder ieithyddol o oedran ifanc, gallwn sicrhau dilyniant naturiol yn y defnydd o'r iaith.

Mae technoleg hefyd wedi bod yn faes pwysig yn fy ngwaith. Mewn cyfnod lle mae deallusrwydd artiffisial yn siapio'r dyfodol, rwyf wedi pwyso am wneud y Gymraeg yn ganolog i'r datblygiadau hyn. Mae'r perygl o gael ein gadael ar ôl yn real, ond mae'r cyfle i sicrhau presenoldeb cryf i'r iaith mewn systemau digidol yn fwy cyffrous fyth. Yn fwy diweddar, rwyf wedi canolbwyntio ar ymgyrchu dros wasanaethau dwyieithog mewn bancio, yn enwedig ar-lein. Os yw bancio digidol yn hanfodol i fywyd bob dydd, yna dylai Cymraeg fod yn hawl, nid yn wellhad. Dim ond drwy alw am safonau clir y gallwn sicrhau tegwch ieithyddol i gwsmeriaid ar hyd a lled y wlad. Yn ogystal, rwyf wedi galw ar Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i wneud defnydd cryfach o'i phwerau rheoleiddiol. Dim ond pan fydd sefydliadau'n gorfod cynnal safonau fydd hawliau ieithyddol gwirioneddol yn cael eu gwireddu. Mae ymgyrchu dros y Gymraeg yn fraint. Pob cam bach ymlaen yn rhan o rywbeth llawer mwy: dyfodol lle mae'r iaith yn ffynnu, yn ymddangos, ac yn perthyn i ni i gyd. Rwy'n gobeithio parhau i ymgyrchu a gweld mwy o hawliau'n cael eu hennill dros yr iaith.

Aled Thomas

Cymdeithas yr Iaith a Cherddoriaeth

Does dim amheuaeth bod ymgyrchoedd gwleidyddol Cymdeithas yr Iaith dros y blynyddoedd wedi bod yn hanfodol bwysig i ddiogelu a chryfhau'r Gymraeg mewn sawl maes. Beth fyddai sefyllfa'r Gymraeg heddiw heb yr ymgyrchoedd hyn tybed? Tipyn gwannach mae'n siŵr.

Ond mae'r Gymdeithas wedi gwneud cyfraniad allweddol at sawl maes arall hefyd, ac un ohonynt yw cerddoriaeth wedi'u cynnal ers ei sefydlu? Faint o unigolion/grwpiau sydd wedi perfformio mewn gigs y Gymdeithas? Sawl neuadd/tafarn/canolfan sydd wedi cynnal gigs y Gymdeithas? Dyma gwestiynau nad oes atebion iddyn nhw bellach mae'n siŵr gan fod y niferoedd mor fawr! Rhaid cofio hefyd am y casetiau/recordiau/CDs amlgyfrannog y mae'r Gymdeithas wedi'u rhyddhau ar hyd y blynyddoedd, gan gynnwys 'Nid yw Cymru Ar Werth' yn ddiweddar.

Mae'n bwysig nodi a dathlu gweithgarwch y Gymdeithas yn y maes hwn, gan ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi gweithio mor galed dros y degawdau i hyrwyddo cerddoriaeth gyfoes Gymraeg. Mae wedi bod yn gyfraniad enfawr at fywyd diwylliannol Cymru sy'n llawn haeddu cydnabyddiaeth.

Steven Jones

Rhai o bosteri ac albyms Steven

Pryd o Dafod

Does dim rhaid i chi fod yn weithredol yn ein hymgyrchoedd i gyfrannu at Pryd o Dafod. Y bwriad yw cael trafodaeth agored ar ein gwaith ymgyrchu a'n blaenoriaethau polisi. Bydd pob cyfraniad yn werthfawr. Felly, cysylltwch oes gennych chi…



- *fuddugoliaeth neu fater sy'n bwysig i'r iaith yn eich ardal leol;*
- *mater ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Gymdeithas ond sydd ddim ar hyn o bryd;*
- *maes ymgyrchu rydych yn teimlo sydd gyda'r pwyslais anghywir.*